# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2316 |
|---|---|
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 07/10/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| Item ID | 5361 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5362 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. Collier. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5363 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Codwyd y datganiad buddiant dilynol:-<br><br>Cynghorydd G. Paulsen<br>Eitem Rhif 6 – Grant Plant a Chymunedau<br><br>Cododd y Cynghorydd Wayne Hodgins hefyd ddiddordeb buddiant yn y cyfarfod gan y gall rhai o’i gleientiaid fod yn ddefnyddwyr gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5364 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2021, yn cynnwys:-<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr awgrym a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gellid cyflwyno adroddiad i’w ystyried yng nghyswllt tâl gwaith cymdeithasol a’r cymhellion a gynigir gan awdurdodau eraill. Nododd yr Aelod nad oedd hyn ar y Flaenraglen Gwaith ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd a gofynnodd pryd y gellid disgwyl adroddiad.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y gellid cyflwyno’r adroddiad i’r cyfarfod nesaf.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor y dylai’r adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, y dylid cadarnhau’r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5406 |
| Item Title | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol at Adroddiad Blynyddol 2020/2021 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a fanylir yn Atodiad 1 a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau. |

Cyfeiriodd Aelod at y flaenoriaeth ‘i ddatblygu modelau amgen o gefnogaeth sy’n hyrwyddo annibyniaeth ac yn cefnogi deilliannau llesiant’ ac yn neilltuol unigolion 25 oed a throsodd. Dywedodd yr Aelod fod llawer o’r bobl ifanc hyn yn awyddus i ddychwelyd i normalrwydd a gofynnodd pa gynlluniau sydd yn eu lle ar gyfer y dyfodol i gael defnyddwyr gwasanaeth dros 25 oed yn ôl i’r gymuned allan o’u cartrefi lle buont ers dechrau’r pandemig.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol at y cyflwyniad a roddwyd mewn cyfarfod blaenorol yng nghyswllt y pwysau yn y system gofal cymdeithasol ac iechyd. Dywedwyd fod staff gofal dydd yn cefnogi gwasanaethau mewn meysydd eraill fel canlyniad i brinder staff mewn gwasanaethau rheng-flaen oherwydd y pandemig. Felly, nid yw rhai gwasanaethau yn gweithredu fel y byddent wedi bod cyn y pandemig a chafodd gwasanaeth dydd ei ddatblygu i fod yn gydnaws gydag anghenion unigolyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod angen sefydlu model ar gyfer cyfleusterau gofal dydd gan na allai’r Adran ddychwelyd i ffyrdd cyn-pandemig gan ei fod yn ddyletswydd ar Gwasanaethau Cymdeithasol i ddiogelu aelodau mwyaf bregus ein cymunedau ac mae angen cydymffufio gydag asesiad risg Llywodraeth Cymru i atal lledaeniad COVID-19 a fyddai’n cynnwys cyfyngiadau pellter cymdeithasol. Unwaith y cynhaliwyd yr adolygiad hwn, ychwanegwyd y caiff ei gyflwyno i Aelodau ei ystyried, fodd bynnag dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y pandemig yn parhau a bod angen cynnal asesiadau risg i gadw peth pellter cymdeithasol yn ein cyfleusterau.

Nodwyd y cafodd gwasanaethau eu cynnig yn rhithwir ac ar sail un-i-un yn ystod y pandemig a bod defnyddwyr gwasanaeth wedi croesawu’r cyswllt hwn, a gobeithir y gellid parhau â’r rhyngweithio hwn. Cynhelir ymgynghoriad gyda theuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth i ddynodi eu hanghenion.

Croesawodd yr Aelod waith Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag gofynnodd ymhellach os ceisir prosiectau gyda chlybiau cymunedol a sefydliadau i gael yr unigolion hyn allan i’r awyr agored. Dywedodd yr Aelod y bu’r bobl ifanc hyn dan do am 18 mis a bod teuluoedd yn awyddus i weld gweithgareddau awyr agored yn ailddechrau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gwaith yn parhau gyda sectorau eraill lle gellid cynnig cymorth o fewn y gymuned. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i godi’r mater yn uniongyrchol gyda’r Aelodau perthnasol.

Cyfeiriodd Aelod at adran cwynion a chanmoliaeth y sector a theimlai y dylai fod nifer dda o negeseuon canmoliaeth sy’n cydnabod gwaith da Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi teuluoedd yn ystod y pandemig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd bod cyfleusterau ar gael bod yr Adran yn methu casglu negeseuon canmoliaeth gan yr anfonir y rhan fwyf o ohebiaeth yn syth i

| | |
|---|---|
| | adeiladau. Caiff y cwynion eu casglu drwy un system a gobeithid y gellid derbyn negeseuon canmol yn yr un ffordd â chwynion er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.<br><br>Cododd Aelod bryder yng nghyswllt cleientiaid bregus a fyddai â mynediad i ganolfannau dydd a theimlai ei bod yn bwysig ailgyflwyno’r gwasanaeth i gefnogi teuluoedd. Mae’n hanfodol fod teuluoedd yn cael y cymorth hwn ac fel Awdurdod dylai’r gwasanaethau hyn fod yn llwyr weithredol erbyn hyn. Cydnabu’r Aelod fod y gwasanaeth i gael eu adolygu, fodd bynnag ni allai gefnogi gostyngiad yn y gwasanaeth a theimlai ei bod yn bwysig bod yr Awdurdod yn dychwelyd i’r lefel gwasanaethau a ddarparwyd cyn y pandemig.<br><br>Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol na fedrid agor y cyfleusterau i’r un niferoedd â chyn y pandemig oherwydd cyfyngiadau pellter cymdeithasol. Ychwanegwyd y byddai’r ymgynghoriad yn cynorthwyo i ddynodi anghenion defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd ac y defnyddir hyn i fodelu ein gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac ystyriodd y manylion a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/2021 ac yn cyfrannu at yr asesiad parhaus o effeithlonrwydd drwy wneud sylwadau priodol a/neu argymhellion ar gyfer diwygio’r adroddiad cyn ei ystyried yn y Pwyllgor Gweithredol a’i gymeradwyo yn y Cyngor. |

| Item ID | 5407 |
|---|---|
| Item Title | Grant Plant a Chymunedau |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant drosolwg manwl o gynnydd y Grant Plant a Chymunedau ac amlinelloddy pwyntiau allweddol a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt cyllid grant, dywedwyd y cafodd dyraniadau cyllid grant eu cadarnhau fel rhan o setliadau cyllideb Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol. Rhoddwyd y wybodaeth hon ym mis Rhagfyr ac roedd grantiau penodol ar wahân i setliad y gyllideb.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os y gellid cyflwyno gwybodaeth ar brosiectau cyllid penodol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr wybodaeth hon ar gael ynghyd â dangosyddion perfformiad a chytunodd ddarparu’r wybodaeth hon.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a’r cynnydd a wnaed hyd yma ar y grant Plant a Chymunedau. Mae Grŵp Llywio y Grant Plant a Chymunedau yn parhau i oruchwylio a gweithredu’r |

| | |
|---|---|
| | rhaglen cyflenwi ac yn rhoi adroddiad blynyddol ar y cynnydd i'r pwyllgor craffu, y pwyllgor gweithredol a'r trefniadau lleol newydd i olynu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5408 |
| Item Title | Cynnig i ddatblygu Tîm Fy Nghefnogaeth (MyST) Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant am yr adroddiad sy'n amlinellu'r cynnig a'r achos busnes i ddatblygu Fy Nhîm Cefnogaeth (MyST) Blaenau Gwent yn lle'r MyST ar y cyd presennol gyda Sir Fynwy. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at gefndir sefydlu'r cyd MyST a nododd y dystiolaeth yn yr adroddiad ar y gwaith a wnaed yn y 2 flynedd ddiwethaf yng nghyswllt:-<br><br>1. Y nifer o blant Blaenau Gwent y mae MyST wedi eu cefnogi i symud allan o ofal preswyl.<br>2. Y nifer o blant Blaenau Gwent y mae MyST wedi eu hatal rhag gorfod mynd i ofal preswyl.<br>3. Y nifer o ymgynghoriadau ymarfer seicolegol Blaenau Gwent a gynhaliwyd gan MyST.<br>4. Y gwir arbedion cost a wnaed gan MyST.<br>5. Osgoi costau fel canlyniad i MyST.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth at yr arbedion gwirioneddol ac osgoi costau a gyflawnodd MyST yn ystod 2019/2020 a 2020/2021 a nododd y costau a ragwelir ar gyfer tîm Blaenau Gwent yn seiliedig ar ragolwg gan Sir Fynwy. Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth ymhellach am yr adroddiad a dywedodd y byddai sefydlu MyST Blaenau Gwent yn parhau â'r gwaith cadarnhaol a chynyddu capasiti ym Mlaenau Gwent i fynd i'r afael â'r ôl-groniad atgyfeiriadau.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a theimlai Aelodau fod yr arbedion a wnaed yn ogystal â'r effaith ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gadarnhaol. Roedd y Pwyllgor yn llwyr gefnogi'r adroddiad a diolchwyd i'r swyddog am drosolwg defnyddiol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chydnabod gwaith cadarnhaol MyST a chefnogi datblygiad MyST Blaenau Gwent i'r Pwyllgor Gweithredol (Opsiwn 1). |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5409 |
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 18 Tachwedd 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion efallai na chaiff yr adroddiad ar fodel technoleg gynorthwyol/darpariaeth teleofal y dyfodol ei |

| | |
|---|---|
| | gyflwyno i'r cyfarfod nesaf gan fod y swyddog cyfrifol yn delio gyda'r ymateb parhaus i'r pandemig. Felly, cytunodd y Cadeirydd y caiff yr adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad (Opsiwn 1) ac:<br><br>a) unrhyw ddiwygiadau i'r pynciau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod.<br>b) awgrymu unrhyw un arall y dylid eu gwahodd y mae'r pwyllgor eu hangen i ystyried yr adroddiadau yn llawn; a<br>c) gofyn i unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys yng nghyswllt y pynciau i gael eu trafod. |